Cael eich eithrio rhag cymeradwyaeth eiddo bwyd

Efallai nad oes rhaid i chi wneud cais am gymeradwyaeth eiddo bwyd, yn dibynnu ar natur eich busnes.

Gallech fod wedi eich eithrio rhag gorfod cael cymeradwyaeth os ydych yn fanwerthwr, neu os ydych yn bwriadu cyflenwi i fanwerthwyr neu arlwywyr eraill, cyn belled â bod y cyflenwad bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid yn 'ymylol, yn lleol ac wedi ei gyfyngu'.

Mae 'ymylol' yn golygu rhan fechan yn unig o fusnes y sefydliad. Byddai hyn hyd at chwarter y busnes o ran bwyd, neu lai na 2 dunnell o ran cig.

Mae 'lleol' yn golygu gwerthiant o fewn sir y sefydliad sy'n cyflenwi, a'r mwyaf naill ai o'r siroedd cyfagos neu hyd at 30 milltir o ffin y sir lle mae'r sefydliad sy'n cyflenwi wedi ei leoli.

Mae 'wedi ei gyfyngu' yn golygu nad oes a wnelo'r busnes ond â chynhyrchu mathau arbennig o gynnyrch neu â chyflenwi rhai mathau o sefydliadau yn unig.

Os ydych yn ansicr a oes angen i chi wneud cais am gymeradwyaeth neu beidio, cysylltwch â ni yn iechydamgylchedd@sirddinbych.gov.uk